

## Adroddad Ang-nghronolegol – Natur yn afon Taf 2

Yn ystod eich ymweliad â'n Canolfan Ddarganfod, roeddech chi'n Ecolegwyr Dŵr Cymru yn cynnal arolygon o'r afon ac yn asesu lefelau llygredd. Mae Dŵr Cymru'n glanhau ein dŵr gwastraff er mwyn sicrhau nad ydym yn llygru'r afonydd. Meddyliwch am eich taith i afon Taf.

Cyflwyniad – Trafodwch gyda phartner. Defnyddiwch yr atebion i ysgrifennu'ch cyflwyniad. Dechreuwch â dau gwestiwn rhethregol i annog y darllenydd i barhau i ddarllen. Lle mae afon Taf yn dechrau? Lle mae'n gorffen? Faint o filltiroedd yw ei thaith? Pam roedd afon Taf wedi'i llygru slawer dydd? Sut allwn ni ddefnyddio'r Mynegai Biotig i weld a yw afon Taf wedi'i llygru heddiw?

### Dewiswch ddisgrifiad i gyfateb i'r gwahanol anifeiliaid dŵr croyw.

Defnyddiwch yr wybodaeth i ysgrifennu am yr anifeiliaid yn eich adroddiad. Ymchwiliwch i'r anifeiliaid hyn ac ychwanegu unrhyw ffeithiau difyr eraill.

#### Llyngyren ledog



Rwy'n byw fel nymff am ryw flwyddyn mewn dŵr croyw. Rwy'n bwyta algâu, deunydd llysieuol a Gronynnau marw eraill yn y dŵr. Rwy'n byw ym mhedwar ban byd, heblaw'r Arctig a'r Antarctig. Pan rwy'n tyfu'n oedolyn, does gen i ddim gên-rannau na thagellau oherwydd fy swyddogaeth yw atgenhedlu. Ar ôl atgenhedlu, byddaf yn marw.

#### Gelen



Mae gen i lygaid cyfansawdd. Rwy'n gallu gweld o fy nghwmpas i gyd i wyllo am elynion. Rwy wedi datblygu'n llwyr pan fyddaf yn deor o'r wŷ. Os gwelwch chi fi, mae'n golygu bod y pwll neu'r afon mewn cyflwr iach! Dw i ddim yn hoffi dŵr wedi'i llygru. Rwy'n nofio wyneb i waered.

#### Nymff Cleren Faiph



Math o llyngyren ydw i. Rwy rhwng 1 a 7 cm o hyd ac yn ddu neu'n frown. Mae gen i sugnolion ar y naill ben a'r llall i'm corff. Mae gen i 32 ymennydd.

#### Berdysyn



Rwy'n fach ac yn fflat ond nid llyngyryn ydw i. Mae gennyf ddau lygad yn fy mhen. Rwy'n troi'n blobyn o jeli pan gaf fy nhynnu allan o'r dŵr. Rwy'n llithro dros bethau trwy guro'r blew sydd o dan fy nghorff. Bydd fy nghorff yn ail-greu ei hunan os caf i niwed.

Ymchwil – Ychwanegwch ddau anifail arall o afon Taf i'ch adroddiad (crëyr glas/crychydd, dyfrgi, eog, nymff pryf pric). Chwiliwch am ffeithiau difyr am yr anifeiliaid dŵr croyw mewn llyfrau ac ar y rhyngwyd.

Casgliad – Ysgrifennwch am eich hoff anifail o blith y rhai a welsoch a dweud pam. Anogwch y bobl sy'n darllen eich adroddiad i fynd at afon yn eu hardal i chwilio am greaduriaid bach.